# Adroddiad arolwg ESTYN 2019

Annwyl Riant/Gwarcheidwaid,

Pleser o'r mwyaf yw cyhoeddi i chi bod adroddiad ein arolwg tymor diwethaf yn fwy ar-lein ar estyn.llyw.cymru.
Rydym yn hynod o falch o'r adroddiad llwyddiannus yma, yn wir, yr adroddiad mwyaf llwyddiannus yn hanes yr ysgol hyd heddiw.

**Cefndir**
Mae pob ysgol yng Nghymru yn derbyn arolwg gan ESTYN. O fewn y cylched hwn bydd arolygwyr yn dyfarnu yn erbyn 5 maes arolygu sef:

1:Safonau 2:Lles 3:Addysgu 4:Gofal, Cymorth ac arweiniad 5:Arweinyddiaeth

**Canlyniad**
Cytunwyd gan arolygwyr yn unfrydol roedd gan yr ysgol safonau DA ym mhob un maes arolygu.
Felly, yn syml, mae'r ysgol yn perfformio'n dda yn Safonau, Lles, Addysgu, Gofal ac Arweinyddiaeth.

**Crynodeb**
M.A1-Safonau

Mae medrau llythrennedd Cymraeg rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Mae llawer yn gwrando ar eu cyfoedion yn aeddfed, gan gyfrannu'n synhwyrol at drafodaethau.
Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu at wahanol ddibenion yn dda, er enghraifft wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau trefnus am sut i wneud cawl, ac i greu gwahoddiad i barti.
Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu ar eu medrau llythrennedd Cymraeg a Saesneg yn bwrpasol.
Mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu at wahanol bwrpasu ar draws meysydd y cwricwlwm yn hyderus.
Ar y cyfan, mae medrau rhifedd disgyblion ar draws yr ysgol yn gadarn.
Ar draws cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cyfuno eu medrau rhifedd a'u medrau ymchwilio gwyddonol yn llwyddiannus.
Mae llawer o'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol ar draws amrywiol feysydd y cwricwlwm.

M.A2-Lles

Mae gan bron pob un disgybl agwedd gadarnhaol tuag at eu hysgol.
Mae bron pob un yn groesawgar a chwrtais tuag at ymwelwyr, a thuag at ei gilydd. Maent yn cyfarch ei gilydd, y staff ac ymwelwyr mewn ffordd gyfeillgar, naturiol a hynaws iawn.
Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda
Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill mewn gwersi ac yn ystod amser egwyl.
Mae bron pob un disgybl yn manteisio'n dda ar y profiadau amrywiol a gânt i wella'u ffitrwydd, eu hiechyd a'u lles corfforol.
Mae cyfraniad a llais y disgybl yn amlwg mewn sawl agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol.

M.A3-Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae perthynas waith dda yn bodoli rhwng y staff a'r disgyblion, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu safonau a'u lles. Mae'r awyrgylch ddysgu yn gadarnhaol a chefnogol, sy'n datblygu brwdfrydedd y

disgyblion tuag at eu dysgu. Mae’r staff a’r athrawon yn cydweithio’n effeithiol ac yn cymell a rheoli ymddygiad y disgyblion yn llwyddiannus.
Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion ddwyn i gof ddysgu blaenorol yn rheolaidd,
Mae rhan fwyaf y staff yn manteisio’n dda ar gyfleoedd i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar. Mae’r ethos Cymreig cryf sy’n bodoli, ynghyd â'r ddarpariaeth, yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r athrawon yn cynllunio'n llwyddiannus ar gyfer datblygu'r dimensiwn Cymreig ac mae hyn yn atgyfnerthu'r ymdeimlad o falchder y disgyblion tuag at yr ardal leol a diwylliant Cymru. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus.
Maent yn paratoi gweithgareddau diddorol iddynt sy'n seiliedig ar bedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru.
Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu gwreiddio'n gadarn a darperir tasgau ffocws gwerthfawr i’r disgyblion yn y gwahanol ardaloedd dysgu. Gwneir defnydd da iawn o’r ardal allanol i gynorthwyo’r addysgu ac i sbarduno diddordeb y disgyblion, er enghraifft wrth ddarparu cyfleoedd iddynt gymhwyso eu medrau ac i gynnal ymchwiliadau perthnasol yn ardal y goedwig.

M.A4-Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae’r ysgol yn gymuned groesawgar a chynhwysol sydd â naws ac ethos Cymreig iddi. Mae’r staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac mae datblygu eu hyder i lwyddo yn ganolog i’w gwaith.
Mae gan yr ysgol weithdrefn lwyddiannus i wella lles emosiynol disgyblion drwy gynnig sesiynau ymyrraeth llythrennedd emosiynol i’r sawl sydd eu hangen.
Mae’r staff yn adnabod anghenion addysgol arbennig a phersonol y disgyblion yn gynnar ac yn darparu rhaglenni ymyrraeth pwrpasol ar eu cyfer.
Mae’r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni ei rôl yn fedrus gan weithio’n effeithiol gydag asiantaethau allanol i sicrhau’r cymorth gorau posibl ar gyfer y disgyblion. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd cadarn tuag at eu targedau personol.
Mae gan yr ysgol drefniadau llwyddiannus i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.
Mae’r ysgol yn darparu ystod o gyfleoedd buddiol i sicrhau bod disgyblion yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau i ymarfer y corff yn rheolaidd.
Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd cyson i ddatblygu medrau moesol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus mewn gwersi perthnasol ac yn ystod gweithgareddau eraill, fel wythnos gwrth-fwlio.
Mae staff yn rhoi cyfleoedd ysgogol i ddisgyblion arbrofi ag amrywiaeth o gyfryngau creadigol.
Mae’r staff yn cynllunio ystod eang o weithgareddau diddorol sy’n datblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o ddiwylliant Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn iawn o hanes a thraddodiadau Cymru ac yn cyfrannu at naws ac ethos Cymreig yr ysgol.

M.A5-Arweinyddiaeth

Mae’r pennaeth yn darparu arweiniad effeithiol i’r ysgol, gan sicrhau cyfeiriad strategol clir ynghyd â chymuned gartrefol a chynhwysol i’r disgyblion. Mae ganddo weledigaeth eglur sy’n seiliedig ar sicrhau bod dysgwyr yn llwyddo trwy gynnig iddynt amrediad o brofiadau dysgu cyfoethog mewn awyrgylch hapus a chefnogol.
Mae’r pennaeth yn gweithio’n fwriadus a llwyddiannus gyda’r disgyblion, y staff, y llywodraethwyr a’r rhieni i weithredu’r weledigaeth hon.
Mae aelodau o'r uwch dîm rheoli yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn glir, ac yn gweithredu ar hyn yn fwriadus.
Mae diwylliant ac ethos cadarn o gefnogi dysgu proffesiynol staff yn bodoli yn yr ysgol.
Mae gweithdrefnau hunanwerthuso yn greiddiol i fywyd a gwaith yr ysgol gyda ffocws clir ar wella deilliannau disgyblion. Mae’r broses yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol ynglŷn ag

ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniad disgyblion. Mae’r corff llywodraethol yn ymroddgar ac yn gefnogol i’r ysgol. Trwy gydweithio â’r staff, arsylwi ar wersi a thrafod enghreifftiau o waith gyda’r disgyblion, maent yn chwarae rôl weithredol yn y prosesau hunanwerthuso.

Mae’r pennaeth yn sicrhau bod gan yr holl staff rôl weithredol yn y broses. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu gwella.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau yn effeithiol. Maent yn neilltuo cyllid yn briodol i gefnogi blaenoriaethau’r ysgol ac yn sicrhau bod y grant datblygu disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i liniaru effaith tlodi.

Mae’r ysgol yn elwa yn fawr o gyfraniadau ariannol gan gymdeithas rhieni, athrawon a ffrindiau'r ysgol ar gyfer prynu adnoddau.

**Cam nesaf**

Bydd yr ysgol yn gweithredu’r argymhellion a wnaed gan yr arolygwyr. Bydd y ddau argymhelliad yn cael ei chynnwys yn y CGY ysgol. Roedd y fater diogelu yn ymwneud a chyflwr ffens gefn yr ysgol ar bwyd yr orsaf dan.  Mae’r argymhelliad yma wedi ei chyflawni yn llawn.

I ddarllen yr adroddiad llawn ewch ar wefan ESTYN.

Yn gywir,

RMEvans

Pennaeth */Headteacher*


Ysgol Gymraeg Gwaun Cae Gurwen
Pennaeth / Head Teacher: Mr Martin Evans
Heol Newydd / New Road,
Gwaun Cae Gurwen, CNPT / NPT SA18 1UN

Rhif Ffôn / Telephone: 01269 822238
E-bost / E-mail: ysgolgcg@npt.school
Gwefan / Web-site:
www.npted.org/schools/primary/ygggwauncaegurwen

Trydar / Twitter: @ysgolgcg

# ESTYN School Inspection Report 2019

*Dear Parent/Guardian,*

*It is with great pleasure to announce that the schools recent school inspection report is now live on estyn.gov.wales.*
*We as a school are extremely proud of our successful report, which to date, is the most successful report to date.*

***Background***:

*Each school in Wales receive an Estyn inspection. Within the cycle, inspectors will provide a judgement against 5 inspection areas.*
*1:Standards 2:Well-being 3:Teaching 4:Care & support 5:Leadership*

***Result*:**

Inspectors unanimously agreed that the school has GOOD standards in all inspection areas.
In simple terms, the school performs very well in Standards, Well-being, Teaching, Care & support and Leadership.

***Summary*:**

*I.A1 – Standards*
Most pupils' Welsh literacy skills in the foundation phase are developing well. Many listen to their peers maturely and contribute sensibly to discussions.
By the end of the foundation phase, many write well for different purposes, for example when writing methodical instructions on how to make soup, and creating an invitation to a party.
Many pupils in key stage 2 build purposefully on their Welsh and English literacy skills.
Most write for different purposes confidently across the areas of the curriculum.
On the whole, pupils' numeracy skills across the school are sound.
Across key stage 2, pupils combine their numeracy skills and scientific investigation skills successfully.
Many pupils apply for information and communication technology (ICT) skills effectively across various areas of the curriculum.

*I.A2 – Well-being*

Nearly all pupils have a positive attitude towards their school. They feel safe there and know whom to approach if they are worried or upset.
They greet each other, staff and visitors in a very friendly, natural and personable manner.
Most pupils behave well. They are very caring towards each other and treat others with respect during lessons and break times.
Nearly all pupils take good advantage of the varied experiences that they are given to improve their fitness, health and physical wellbeing.
The contribution of the pupil's voice is prominent in several aspects of the school's life and work.

*I.A3 – Teaching and learning experiences*

There is a good working relationship between staff and pupils, which has a positive effect on their standards and wellbeing. The learning environment is positive and supportive, which develops pupils' enthusiasm towards learning. Staff and teachers work together effectively, motivate pupils and manage their behaviour successfully.
Teachers provide good opportunities for pupils to recall previous learning regularly and build on what they already know.
Most staff take good advantage of opportunities to enrich pupils' language, which contributes successfully towards their oral skills. The strong Welsh ethos, as well as the provision, encourage pupils to make full use of the Welsh language in all aspects of school life. Teachers plan successfully to develop the Welsh dimension, and this reinforces pupils' sense of pride towards the local area and Welsh culture. As a result, pupils develop as competent and confident bilingual learners.
Staff provide a broad curriculum for pupils, which inspires them to learn successfully.
Staff provide beneficial opportunities for pupils to influence planning at the beginning of themes, which motivates them to play an active part in their learning. Teachers adapt planning skilfully to follow these ideas and lines of enquiry.
The principles of the foundation phase have been embedded firmly and valuable focus tasks are provided for pupils in the different learning areas. Very good use is made of the outdoor area to support teaching and stimulate pupils' interest, for example by providing opportunities for them to apply their skills and conduct relevant investigations in the forest area.

*I.A4 – Care, support and guidance*

The school is a welcoming and inclusive community with a Welsh atmosphere and ethos. Staff know the pupils well and developing their confidence to succeed is at the heart of their work.
The school has a successful procedure to improve pupils' emotional wellbeing by providing intervention programmes on emotional literacy for those who need them.
Staff identify pupils' personal and special educational needs at an early stage and provide purposeful intervention programmes for them.
The additional learning needs co-ordinator fulfils her role skilfully by working effectively with external agencies to ensure the best support possible for pupils. As a result, most pupils with special educational needs make sound progress towards their personal targets.
The school has successful arrangements to promote eating and drinking healthily.
The school provides regular opportunities to develop pupils' moral and social skills successfully in relevant lessons and during other activities, such as anti-bullying week.
Staff provide stimulating opportunities for pupils to experiment with a variety of creative media.
Staff plan a wide range of interesting activities that develop pupils' awareness and appreciation of Welsh culture. This ensures that pupils develop a very sound awareness of Welsh history and traditions and contributes to the school's Welsh atmosphere and ethos.

*I.A5 – Leadership*

The headteacher provides the school with effective leadership and ensures a clear strategic direction, in addition to a homely and inclusive community for pupils. He has a clear vision that is based on ensuring that learners succeed by providing them with a range of rich learning experiences in a happy and supportive environment.
Members of the senior management team understand their roles and responsibilities clearly and act on them purposefully.

Ysgol Gymraeg Gwaun Cae Gurwen
Pennaeth / Head Teacher: Mr Martin Evans
Heol Newydd / New Road,
Gwaun Cae Gurwen, CNPT / NPT SA18 1UN
Rhif Ffôn / Telephone: 01269 822238
E-bost / E-mail: ysgolgcg@npt.school
Gwefan / Web-site:
www.npted.org/schools/primary/ygggwauncaegurwen
Trydar / Twitter: @ysgolgcg

The school has a robust culture and ethos of supporting staff's professional development.
Self-evaluation procedures are at the heart of the school's life and work, with a clear focus on improving pupils' outcomes. The process is based on a wide range of first-hand evidence about the quality of provision and pupils' achievement. As a result, leaders have a clear understanding of the school's strengths and most of the main areas for improvement.
The headteacher ensures that all staff play an active role in the process. This ensures that they have a clear understanding of the school's strengths and areas for improvement.
The governing body is committed and supportive of the school.
Leaders manage resources effectively. They allocate funding appropriately to support the school's priorities and ensure that the pupil development grant is used effectively to alleviate the effects of poverty.
The school benefits greatly from financial contributions from the parent, teacher and friends of the school association to purchase resources, for example for the outdoor area, which contribute successfully towards pupils' learning experiences.

***Next Steps:***

The school will address the recommendations made by the inspectors by including them in the schools' current school improvement plan. The safeguarding matter was the condition of the old fencing backing onto the fire station. This has been fully addressed.
To read the full report please visit ESTYN's webite.

Yn gywir,

RMEvans

Pennaeth */Headteacher*